




## Tasg 2

### Pam mae Cymraeg yn bwysig?

1. Mae Rhodri Owen yn siarad Cymraeg a Saesneg. Sut mae hyn wedi ei helpu e / o?  
Siaradwch am hyn ac ysgrifennwch eich syniadau chi isod.
  
2. Meddyliwch am swyddi eraill lle mae siarad Cymraeg a Saesneg yn gallu helpu.  
Rhestrwch y swyddi a dwedwch pam mae Cymraeg yn bwysig.

Swydd	Pam mae siarad Cymraeg a Saesneg yn bwysig?
Doctor	



### 3. Edrychwch ar y brawddegau yma

Mae Cymraeg yn ddymunol.  
Welsh is desirable.

Mae Cymraeg yn hanfodol.  
Welsh is essential.

#### Dymunol

Mewn rhai swyddi, mae'n help os ydy person yn deall, yn siarad ac yn ysgrifennu Cymraeg – mae Cymraeg yn **ddymunol**.

#### Hanfodol

Mewn rhai swyddi, rhaid i'r person ddeall, siarad ac ysgrifennu Cymraeg – mae Cymraeg yn **hanfodol**.

### 4. Darllenwch yr hysbysebion ar y dudalen nesaf.


Ydy Cymraeg

- yn ddymunol (syniad da!)
  - yn hanfodol (rhaid siarad Cymraeg)
- yn y swyddi yma?

Dewiswch bedair (4) swydd. Gwnewch grid fel yr un yma yn eich llyfrau ac atebwch y cwestiwn uchod. Cofiwch roi rheswm / rhesymau.

Swydd	yn ddymunol	yn hanfodol	Rheswm
Triniwr gwallt	✓		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Cymraeg yn ddymunol achos mae'r person yn gallu siarad Cymraeg gyda'r cwsmeriaid.</li> <li>• Dydy Cymraeg ddim yn hanfodol achos dydy pawb ddim eisiau siarad Cymraeg.</li> <li>• Mae aelodau eraill o'r staff yn gallu siarad Cymraeg, efallai.</li> </ul>

Geirfa			
yr un yma	this one	aelod, aelodau	member, members



## CWMNI TELEDU CYFFROUS

Yn eisiau

### **DYN / DYNES CAMERA**

i weithio ar raglenni Cymraeg a Saesneg.  
Bydd rhaid teithio o gwmpas Cymru i ffilmio pobl yn siarad a bydd rhaid ffilmio rhaglenni addysg i ysgolion yng Nghymru hefyd.

## SIOP TRIN GWALLT BELA

Yn eisiau

### **TRINIWR GWALLT**

i weithio mewn tîm o 6

## CANOLFAN HAMDDEN ABERSYTWYTH

Yn eisiau

### **HYFFORDDWR PERSONOL**

i weithio 37 awr yr wythnos.

## GWESTY'R GRAND, LLANELLI

Yn eisiau

### **DERBYNNYDD**

Y swydd:

- Croesawu pobl
- Bwcio pobl i mewn
- Ateb cwestiynau
- Ateb y ffôn
- Siarad â'r cwsmeriaid

## LLYFRGELL ABERTAWE

Yn eisiau

### **LLYFRGELLYDD**

Y swydd:

- Gweithio wrth y ddesg
- Darllen storïau (Cymraeg a Saesneg) i grwpiau o blant
- Ateb y ffôn yn ddwyieithog
- Ysgrifennu llythyrau
- Gwneud posteri dwyieithog

## CWMNI PLYMARS PROFFESIYNOL

Yn eisiau

### **PLYMAR**

i weithio yn ardal Y Drenewydd.

## YSGOL GYNRADD BANC-Y-FFOS

Yn eisiau

### **ATHRO / ATHRAWES BLWYDDYN 4**



Rhaid dysgu Cymraeg fel ail iaith

## YSBYTY ABERTAWE

Yn eisiau

### **NYRS**

i weithio ar ward y plant.



Geirfa			
addysg	education	llyfrgellydd	librarian
trin	to style	swydd	job
triniwr	stylist	plymar	plumber
hyfforddwr	trainer	cynradd	primary
derbynnydd	receptionist	ysbyty	hospital